

Rhif: WG30834



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Newid trefn arolygu bresennol Estyn

Dyddiad cyhoeddi: 1 Mawrth 2017
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 12 Ebrill 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Newid trefn arolygu bresennol Estyn

Trosolwg

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn gofyn am eich safbwyntiau ar: y newidiadau arfaethedig i reoliadau arolygu a'r diwygiadau i ddogfen canllawiau statudol *Ysgolion sy'n achosi pryder* Llywodraeth Cymru 202/2016 (2016).

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **12 Ebrill 2017** fan hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Perfformiad Ysgolion
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair

2

Cyflwyniad

3

Cefndir

4

Rhagair

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i reoliadau: diwygio amseriad cyfarfodydd cyn-arolygu ysgolion gyda rhieni ac yn lleihau'r amser a ganiateir ar gyfer llunio datganiad ysgrifenedig o'r camau gweithredu ar ôl arolygiad gan Awdurdod Lleol. Mae hefyd yn gofyn am farn ar ddiwygio a diweddarau'n gyffredinol dogfen canllawiau statudol Ysgolion sy'n Achosi Pryder Llywodraeth Cymru 202/2016.

Mae'r materion mewn perthynas â threfniadau arolygu Estyn yn cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth a byddai gofyn diwygio rheoliadau i'w newid.

Yn y ddogfen ymgynghori hon, rydym yn nodi'r materion sy'n ymwneud â'r newidiadau arfaethedig i drefniadau arolygu Estyn a'r newidiadau i ddogfen canllawiau statudol Ysgolion sy'n Achosi Pryder Llywodraeth Cymru 202/2016. Rydym hefyd yn nodi cyfres o gwestiynau sy'n gofyn am eich barn ar fanteision y newidiadau hyn neu fel arall.

Os oes cefnogaeth gadarnhaol o blaid y newidiadau i drefniadau arolygu Estyn, bydd hyn yn arwain at ddiwygiadau i'r ddeddfwriaeth. Bydd unrhyw newidiadau a fydd yn arwain at drefniadau arolygu newydd yn dod i rym erbyn 1 Medi 2017.

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori yn ceisio'ch safbwyntiau ar y canlynol:

- diwygio rheoliadau i newid amseriad cyfarfodydd cyn arolygu ysgolion gyda rhieni fel eu bod yn cael eu cynnal o fewn 2 ddiwrnod i ddechrau arolygiad.
- diwygio rheoliadau i leihau'r amser a ganiateir ar gyfer llunio datganiad ysgrifenedig o gamau gweithredu ar ôl arolygiad gan Awdurdod Lleol i 5 diwrnod gwaith i dderbyn cynllun gweithredu ar ôl arolygiad ysgolion.
- diwygio a diweddarau canllawiau statudol Ysgolion sy'n Achos Pryder Llywodraeth Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â'r sectorau canlynol:

- ysgolion meithrin a gynhelir, lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a lleoliadau a gynhelir gan, neu sy'n derbyn cyllid gan, awdurdodau lleol ("addysg feithrin berthnasol")
- ysgolion cymunedol;
- ysgolion gwirfoddol;
- ysgolion sefydledig;
- ysgolion arbennig cymunedol;
- ysgolion arbennig sefydledig;
- unedau cyfeirio disgyblion.

Cefndir

Mae Estyn wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r ffordd y mae'n arolygu addysg a hyfforddiant o 2017. Fel rhan o'r adolygiad o drefniadau arolygu, mae meysydd wedi'u nodi lle byddai rhai mân newidiadau i reoliadau a chanllawiau statudol yn cefnogi a sbarduno gwelliannau drwy waith arolygu. Nodir y rhain isod.

Diwygio amseriad cyfarfodydd cyn arolygu ysgolion gyda rhieni

Ystyrir bod y cyfarfodydd cyn arolygu gyda rhieni yn rhan werthfawr o'r broses arolygu. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal y cyfarfodydd hyn cyn cynnal arolygiad. Yn gyffredinol, cynhelir cyfarfodydd rhieni ar ddiwedd y diwrnod cyntaf yn ystod wythnos yr arolygiad, mynd ati go iawn i wneud y gwaith arolygu gwirioneddol. Gan fod y cyfarfod rhieni'n cael ei ystyried yn fan cychwyn ar gyfer arolygiad ar hyn o bryd, ni ellir dechrau gweithgarwch arolygu allweddol hyd nes y cynhelir y cyfarfod.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio cael mwy o hyblygrwydd o ran amseriad y cyfarfod rhieni. Er y byddai angen cynnal y cyfarfod yn gynnar o fewn y weithdrefn arolygu o hyd, cynigir cynnal y cyfarfod o fewn 2 ddiwrnod i ddechrau'r arolygiad. Byddai hyn yn galluogi i adborth o'r cyfarfod gyda rhieni barhau i lywio'r gweithgarwch arolygu.

Rhagwelir y byddai dull mwy hyblyg o gynnal cyfarfodydd cyn arolygu gyda rhieni yn caniatáu i elfennau canolog yr arolygiad gael eu dechrau'n gynt pe bai'r tîm arolygu yn dymuno gwneud hynny. Er enghraifft, gallai arolygwyr ymweld ag ystafelloedd dosbarth yn ystod y prynhawn cyn cyfarfod â'r rhieni. Byddai'r hyblygrwydd hyn yn galluogi'r tîm arolygu i deilwra'r broses arolygu i ddiwallu anghenion ysgolion unigol a sicrhau bod y tîm yn gwneud y defnydd gorau o'u hamser yn yr ysgol.

Lleihau'r amser sydd gan yr awdurdod lleol i baratoi datganiad ysgrifenedig o'r camau y mae'n cynnig eu cymryd pan bennir categori statudol ysgol

Ar hyn o bryd, mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau i baratoi'r datganiad o fewn 10 niwrnod gwaith i dderbyn cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad yn yr ysgol neu 12 diwrnod gwaith o'r dyddiad y mae'n ofynnol i'r awdurdod priodol fod wedi dosbarthu cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig bod rheoliadau'n cael eu diwygio fel bod yn rhaid llunio datganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol o fewn 5 diwrnod i dderbyn cynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad yn yr ysgol.

Y canlyniad a ragwelir yw y byddai lleihau'r amser a ganiateir fel hyn yn galluogi pob ochr i gydweithio'n well a gweithio'n gyflymach i gynllunio a chefnogi gwelliannau.

Diwygio a diweddarau canllawiau statudol Ysgolion sy'n Achos Pryder Llywodraeth Cymru.

Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar ysgolion sy'n achosi pryder yn darparu gwybodaeth am y gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi

pryder. Cyhoeddwyd fersiwn ddiweddaraf y canllawiau ym mis Mawrth 2016, dogfen 202/2016. Gellir canfod copi o'r canllawiau ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/schools-causing-concern/?skip=1&lang=cy>

Mae'n nodi o dan ba amgylchiadau ac ar ba seiliau y mae ysgol yn gymwys am ymyrraeth a'r pwerau a'r mathau o ymyriadau y gall awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru eu defnyddio. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi'r gweithdrefnau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig ag ysgolion sydd angen gwelliannau sylweddol a mesurau arbennig ar ôl arolygiad.

Mae Estyn yn cynnig cyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y broses o fonitro ysgolion sy'n achosi pryder i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau arolygu er mwyn helpu i gefnogi gwelliannau yn yr ysgolion hynny.

Yn sgil hynny, bydd angen diwygio'r geiriad ym mharagraffau 7.23 a 7.26 y canllawiau ysgolion sy'n achosi pryder i adlewyrchu'r newid hwnnw.

Cynigir y geiriau canlynol:

I ysgolion sydd angen mesurau arbennig, bydd Estyn yn pennu rhaglen fonitro briodol ar ôl cytuno ar Gynllun Gweithredu'r ysgol a datganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol. Fel arfer, cynhelir yr ymweliadau hyn bob 4 – 6 mis. Bydd Estyn yn asesu 'r cynnydd y mae'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi'i wneud wrth roi'r cynllun gweithredu a'r datganiad ysgrifenedig ar waith i fynd i'r afael â'r materion a nodir yn adroddiad arolygu'r ysgol. Bydd Estyn yn ysgrifennu at Gadeirydd y corff llywodraethu, yr awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru ar ôl pob ymweliad monitro i adrodd ar y cynnydd a wnaed gan yr ysgol ers yr arolygiad cyntaf.

Ar gyfer ysgolion sydd angen gwelliant sylweddol, yn y rhan fwyaf o achosion bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol tua deuddeg i ddeunaw mis ar ôl cytuno ar Gynllun Gweithredu yn yr ysgol a datganiad ysgrifenedig yr awdurdod lleol.

Yn sgil y newidiadau sydd ar y gweill i drefniadau arolygu a sefyllfa addysg yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn amser priodol i geisio safbwyntiau ar ddiweddarau'r canllawiau'n gyffredinol.